Nursing & Midwifery Council

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol Addasrwydd i Ymarfer

## 2019–2020

Cefnogi Dylanwadu Rheoleiddio

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol Addasrwydd i Ymarfer 2019–2020

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50 (2)
Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd
gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Gorffennaf 2020

OGL

**© Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2020**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu yn unol â thelerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi sicrhau caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.nmc.org.uk**.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn: Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

ISBN 978-1-5286-2031-4

CCS0620796088

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


Rhagair **5**

Ein gwaith a sut rydym yn diogelu'r **6**

- Ein rôl 6
- Ein cofrestr 8
- Beth yw addasrwydd i ymarfer? 9
- Sut mae pryderon yn cael eu codi gyda ni 9
- Pryderon y gallwn ac na allwn eu hystyried 10
- Sut rydym yn delio â phryderon sy'n cael eu codi gyda ni 10
- Camau gweithredu rheoleiddiol y gallwn eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd 11
- Gwybodaeth gyhoeddus am ein penderfyniadau 13

Ein gwaith yn 2019–2020: datblygu ein dull gweithredu newydd **14**

- Darparu cymorth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd 16
- Darparu cymorth i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio 19
- Atgyfnerthu ein penderfyniadau gyda chyngor clinigol 20
- Cyswllt Cyflogwyr a Gwybodaeth Reoleiddiol 20

Crynodeb ystadegol 2019–2020 **24**

Ein dangosyddion perfformiad allweddol 24

Nifer y pryderon 24

Ffynonellau'r pryderon 25

Pryderon pan nad ydym yn adnabod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio 26

Pryderon yn ôl gwlad cyfeiriad cofrestredig 26

Pryderon yn ôl math o gofrestriad 27

Canlyniadau asesiadau cychwynnol 27

Gorchmynion interim 27

Canlyniadau Archwilwyr Achosion 28

Canlyniadau gwrandawiadau a chyfarfodydd 30

Cofnodion twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr 32

Tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol 32

Adolygiadau ac apeliadau 33

Adfer i'r gofrestr 34

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac addasrwydd i ymarfer 35

Ffocws yn y dyfodol: 2020–2021 **36**

# Rhagair

Yn 2018 fe wnaethom gyflwyno dull gweithredu newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer, gyda dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolion ar gyfer rheoleiddio. Y nod oedd hyrwyddo diwylliant agored ac o ddysgu, a oedd yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol gywiro pryderon.

Rydym yn ail gam y broses o gyflwyno'r dull gweithredu hwn yn awr. Mae ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus wedi parhau i chwarae rhan hollbwysig yn gwneud yn siŵr bod lleisiau pobl yn cael eu clywed. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi cwrdd â mwy na 150 o bobl a oedd angen cymorth.

Er mwyn rhoi llais pellach i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, bu i ni gomisiynu ymchwil ar sut y gallwn ddefnyddio datganiadau profiad mewn ymchwiliadau. Rhoddodd hyn wybodaeth ddefnyddiol i ni a byddwn yn dechrau gwneud newidiadau gwybodus eleni.

Ochr yn ochr â'n gwaith i rymuso'r cyhoedd, rydym wedi gwneud mwy i gefnogi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, gan gynnwys llinell gymorth gyfrinachol am ddim i'r rhai sydd ei hangen. Rydym hefyd wedi atgyfnerthu ein perthynas â chyflogwyr drwy ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr sy'n datblygu.

Mae'r ymrwymiad hwn i gefnogi pobl mewn ffordd garedig a theg yn rhan o strategaeth newydd y Cyngor ar gyfer 2020–2025. Mae'r cynllun uchelgeisiol hwn yn ceisio cyflawni ein gweledigaeth o wasanaethau nyrsio a bydwreigiaeth diogel, caredig ac effeithiol sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Mae'n amlinellu ein diben a'n rôl, a'r gwerthoedd a fydd yn sail i'n gwaith.

Cyflawnwyd ein gwelliannau i addasrwydd i ymarfer a'n strategaeth newydd mewn cydweithrediad ag eraill. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, ein partneriaid a'n cydweithwyr. Diolch i'r miloedd o bobl sydd wedi ymgysylltu â'n gwaith a'n helpu i symud ymlaen.

Datblygodd y pandemig coronafeirws wrth i'r flwyddyn ddod i ben. Er y bydd ei effeithiau i'w teimlo am gyfnod hir, credwn ein bod yn y sefyllfa orau bosibl i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl a phartneriaid yn y blynyddoedd nesaf wrth i ni barhau i ddod yn Gyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gwell.

**Philip Graf**
Cadeirydd
**6 Gorffennaf 2020**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**6 Gorffennaf 2020**

# Ein gwaith a sut rydym yn diogelu'r cyhoedd

## Ein rôl

Y Cyngor yw rheoleiddiwr proffesiynol nyrsys a bydwragedd yn y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Mae ein hamcanion wedi'u nodi yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd).

> Amcan cyffredinol y Cyngor wrth arfer ei swyddogaethau yw diogelu'r cyhoedd.
>
> Wrth geisio cyflawni ei amcanion cyffredinol, mae'r Cyngor yn cynnwys ceisio cyflawni'r amcanion canlynol –
>
> *(a) diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd;*
>
> *(b) hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio yn unol â'r Gorchymyn hwn; a*
>
> *(c) hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol i aelodau'r proffesiynau hynny.*

Ein cyfrifoldebau rheoleiddiol yw i:

- **cynnal y gofrestr** o nyrsys a bydwragedd sy'n cyflawni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU, a chymdeithion nyrsio sy'n cyflawni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr
- pennu'r **gofynion ar gyfer yr addysg broffesiynol** sy'n cynorthwyo pobl i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad gofynnol ar gyfer cael mynediad at, neu anodiad ar ein cofrestru
- siapio ymarfer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestru drwy **ddatblygu a hyrwyddo safonau** gan gynnwys ein Cod, a hyrwyddo dysgu gydol oes drwy ail-ddilysu
- **ymchwilio ac, os bydd angen, gweithredu** pan fydd pryderon difrifol yn cael eu codi ynglŷn ag addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer.

Ein corff llywodraethu yw ein Cyngor, sy'n cynnwys chwe aelod lleyg a chwe gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr. Mae ein gwaith yn cael ei oruchwylio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n adolygu gwaith rheoleiddwyr proffesiynau iechyd a gofal. Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Rydym hefyd yn elusen gofrestredig ac yn ceisio sicrhau bod pob elfen o'n gwaith yn creu budd i'r cyhoedd.

Rydym yn ***rheoleiddio*** er budd y cyhoedd, a rhoi hyder i bobl yn ein proffesiwn. I wneud hyn yn dda, credwn fod angen ymgysylltu a grymuso parhaus ac ystyrlon gyda'r cyhoedd.

Mae ein rôl reoleiddiol yn cael ei dyrchafu pan fyddwn yn ***cefnogi'r*** cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid. Mae darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i'r rhai sy'n gysylltiedig â'n prosesau yn cyflawni canlyniadau gwell i bawb. Mae darparu canllawiau defnyddiol, mewn cydweithrediad â chyflogwyr ac addysgwyr, yn helpu ein proffesiynau i gynnal ein safonau proffesiynol uchel wrth ymarfer. Mae'n helpu i ail-gydbwyso ein ffocws tuag at ymarfer da o ymarfer gwael, ac atal – nid dim ond ymateb – i niwed.

Bydd rhannu gwybodaeth o'n gwaith, a chydweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, yn ein galluogi i ***ddylanwadu'n*** gadarnhaol ar y cyd-destun ar gyfer dysgu a gofal.

Fe wnaethom fabwysiadu gwerthoedd newydd yn 2020, sy'n sail i bopeth a wnawn. Maent yn siapio'r ffordd rydym yn meddwl ac yn gweithredu.

### Rydym yn deg

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch yn ganolog i'n rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr dibynadwy ac agored.

### Rydym yn garedig

Rydym yn gweithredu'n garedig ac mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pobl, eu dirnadaethau, eu sefyllfaoedd a'u profiadau.

### Rydym yn gydweithredol

Rydym yn gwerthfawrogi ein perthnasoedd (y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n well gydag eraill.

### Rydym yn uchelgeisiol

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio ac rydym bob amser yn ceisio gwneud ein gorau i'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd a wasanaethwn a'n gilydd.

## Ein cofrestr

Ar 31 Mawrth 2020 roedd:

**669,854**
o nyrsys

**37,918**
o fydwragedd

**7,142**
nyrsys a bydwragedd â chofrestriad deuol

**1,693**
cymdeithion nyrsio

ar ein cofrestr, cyfanswm o

**716,607**

cynnydd o 18,370 ers Mawrth 2019 (2018–2019 ffigur: 698,237)

Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n cyflawni ein safonau, ac mae gennym brosesau clir ac agored i ymchwilio i'r rhai nad ydynt yn cyflawni ein safonau.

## Ein cofrestr yn ôl gwlad hyfforddi



Lloegr
**478,456**



Yr Alban
**70,988**



Cymru
**29,742**



Gogledd Iwerddon
**21,720**



Yr UE a Thramor
**115,701**

Os bydd rhywun sydd wedi cofrestru â ni yn cyflwyno risg i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y cyhoedd neu eu cydweithwyr, gallwn weithredu i gyfyngu eu hymarfer neu ddiddymu eu hawl i weithio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

## Beth yw addasrwydd i ymarfer?

Os bydd gan nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio y sgiliau, gwybodaeth, iechyd a chymeriad da i ddarparu gofal diogel, o ansawdd uchel i'w cleifion a defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yna gallwn ddweud eu bod yn addas i ymarfer.

**Mae'r Cod** yn nodi'r safonau yr ydym ni, a'r cyhoedd, yn disgwyl i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cynnal i fod ar ein cofrestr a chynnal eu cofrestriad, yn y DU.

Mae ein proses ail-ddilysu yn ei gwneud yn ofynnol i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ar y gofrestr arddangos yn rheolaidd eu bod yn ymarfer yn ddiogel a'u bod yn cyflawni'r safonau yn y Cod.

Weithiau gall pethau fynd o chwith mewn gofal a allai arwain at bryderon ynghylch addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer. Rydym yn annog pobl i drafod eu pryderon gyda'r cyflogwr i ddechrau i weld a ellir eu datrys ar lefel leol.

Mewn rhai achosion, pan na fydd yn bosibl datrys pryderon ar lefel leol, neu os bydd rhywun yn credu eu bod yn ddigon difrifol i alw am gamau gweithredu rheoleiddiol ar unwaith gennym ni, dylent godi'r pryderon yn uniongyrchol gyda ni. Yna byddwn yn penderfynu a oes angen i ni gymryd camau gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd ac, ym mhob achos, byddwn yn ceisio canfod canlyniad ar y cyfle cynharaf posibl.

## Sut mae pryderon yn cael eu codi gyda ni

Gall unrhyw un ddweud wrthym os oes ganddynt bryderon ynglŷn ag addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer ar unrhyw adeg. Os byddwn yn credu bod angen, gallwn agor achosion ein hunain.

Fel arfer, rydym yn derbyn pryderon gan:

- claf neu berson sy'n defnyddio gwasanaethau nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio
- aelod o'r cyhoedd
- cyflogwr neu reolwr y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio
- yr heddlu
- nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn atgyfeirio eu hunain
- rheoleiddwyr iechyd a gofal eraill.

Mae gwybodaeth bellach am sut gallwch godi pryderon gyda ni ar gael **ar ein gwefan**.

## Pryderon y gallwn ac na allwn eu hystyried

Bydd ond yn bosibl i ni ystyried pryderon os ydynt yn ymwneud â nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd ar ein cofrestr. Ni allwn ystyried pryderon os ydynt yn ymwneud â gweithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill, neu aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, byddwn yn atgyfeirio'r pryderon hyn at reoleiddwyr eraill, neu'r heddlu, os bydd yn briodol.

Ein swyddogaeth ni yw penderfynu a yw unrhyw bryderon ynglŷn ag addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i ni gymryd camau gweithredu rheoleiddiol er mwyn diogelu'r cyhoedd. Y mathau o bryderon y gallwn eu hystyried yw:

- camymddwyn (gan gynnwys camymddwyn clinigol)
- diffyg cymhwyster
- euogfarnau troseddol
- salwch difrifol
- nid oes ganddynt y wybodaeth angenrheidiol am yr iaith Saesneg.

Rydym hefyd yn ymchwilio i achosion pan fydd yn ymddangos bod rhywun wedi cael mynediad i'n cofrestr yn dwyllodrus neu'n anghywir.

## Sut rydym yn delio â phryderon sy'n cael eu codi gyda ni

Mae'r camau y gallwn eu cymryd i'n helpu i asesu pryderon a phenderfynu a oes angen unrhyw gamau gweithredu rheoleiddiol fel arfer yn cynnwys:

- gofyn am wybodaeth bellach gan y person sydd wedi codi'r pryder, er mwyn i ni gael darlun llawn o'u pryderon
- gwirio ein cofnodion i weld a godwyd pryderon am y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn y gorffennol
- gofyn i'w cyflogwr a oes ganddynt hwy unrhyw bryderon eraill amdanynt
- cymryd datganiadau gan dystion a chasglu tystiolaeth arall
- gofyn i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio am eu hymateb i'r pryderon ac i esbonio unrhyw gamau maent wedi'u cymryd i unioni pethau.

Gallwch ddarllen mwy am y ffordd yr ydym yn delio â phryderon **ar ein gwefan**.

## Camau gweithredu rheoleiddiol y gallwn eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd

Os bydd angen, gallwn gymryd camau gweithredu brys, ar unwaith, i ddiogelu'r cyhoedd wrth i ni ymchwilio i bryderon. Gwnawn hyn drwy ofyn i banel annibynnol ystyried gwneud gorchymyn interim. Mae dau fath o orchymyn interim:

- Gorchymyn amodau ymarfer interim, sy'n gosod amodau y mae'n rhaid i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio gydymffurfio â hwy.
- Gorchymyn atal interim, sy'n atal cofrestriad y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

Mae gwybodaeth bellach am orchmynion interim ar gael **ar ein gwefan**.

Ar ôl i ni ymchwilio'n llawn i bryderon, gall ein Harchwilwyr Achos:

- rhoi cyngor i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, i'w hatgoffa o'r safonau proffesiynol y disgwylir iddynt eu cynnal; neu
- cyflwyno rhybudd i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio; neu
- cytuno ar ymrwymiadau gyda'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, sy'n gyfres o gamau cytûn y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni er mwyn dychwelyd i ymarfer diogel ac effeithiol; neu
- cyfeirio'r achos ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod; neu
- cau'r achos heb unrhyw gamau gweithredu pellach os nad oes unrhyw bryderon diogelu'r cyhoedd.

I ddarllen mwy am waith ein Harchwilwyr Achosion, **ewch i'n gwefan**.

Mewn achosion mwy difrifol, neu pan na fydd y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn derbyn bod pryderon ynghylch eu hymarfer, byddwn yn cynnal gwrandawiad neu gyfarfod ger bron panel annibynnol y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Mae'r panel yn cynnwys aelodau lleyg ac aelodau cofrestredig.

Mae gwybodaeth bellach am y paneli ar gael **ar ein gwefan**.

Byddwn ond yn cynnal gwrandawiad pan fydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn anghytuno â ffeithiau'r achos, neu os ydynt wedi gofyn i'w hachos gael ei glywed mewn gwrandawiad.

Cynhelir gwrandawiadau yn gyhoeddus fel arfer. Yn y gwrandawiad byddwn yn esbonio beth yw ein pryderon rheoleiddiol ac yn galw ar dystion i roi tystiolaeth. Gall y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio fynychu a chael eu cynrychioli. Byddant hwy, neu eu cynrychiolydd, yn esbonio beth yw eu hymateb i'n pryderon a galw ar dystion i roi tystiolaeth. Gall gwrandawiadau fod yn brofiad dirdynnol i'r rhai sy'n gysylltiedig, ond maent yn angenrheidiol er mwyn datrys gwahaniaethau yn y dystiolaeth rhwng y partïon.

Cynhelir y cyfarfodydd yn breifat. Bydd y panel yn ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig y byddwn yn ei darparu yn ofalus iawn ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y bydd y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn ei rhoi i ni ymlaen llaw.

Gallwch ddarllen mwy am sut rydym yn penderfynu atgyfeirio achos at wrandawiad neu gyfarfod **ar ein gwefan**.

Eleni rydym wedi bod yn gweithio i ddatrys mwy o achosion mewn cyfarfod fel rhan o'n cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn yr adran 'Ein gwaith yn 2019–2020' yn yr adroddiad hwn.

Mewn gwrandawiad neu gyfarfod, gall panel annibynnol wneud un o'r canlynol:

- cyflwyno gorchymyn rhybuddio am hyd at bum mlynedd
- gosod amodau ymarfer y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy am hyd at dair blynedd
- atal o'r gofrestr am hyd at un flwyddyn
- dileu oddi ar y gofrestr
- cau'r achos heb unrhyw gamau gweithredu pellach.

Mae gwybodaeth bellach am y camau gweithredu y gall ei paneli annibynnol eu cymryd ar gael **ar ein gwefan**.

Mewn rhai achosion, a dim ond os byddwn yn fodlon bod budd cyhoeddus o wneud hynny, byddwn yn caniatáu i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i dynnu eu hunain yn wirfoddol oddi ar ein cofrestr heb orfod cynnal gwrandawiad neu gyfarfod. Rydym yn darparu niferoedd y diddymiadau gwirfoddol ymhellach yn yr adroddiad hwn.

# Gwybodaeth gyhoeddus am ein penderfyniadau

Cyhoeddir gwybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud a sut y gwneir penderfyniadau, gan gynnwys ein canllawiau i benderfynwyr **ar ein gwefan**.

Eleni rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'r math o wybodaeth a gyhoeddwn a'r hyd o amser y byddwn yn cyhoeddi rhai penderfyniadau ar ein gwefan:

- Cyhoeddir gorchmynion dileu oddi ar y gofrestr am bum mlynedd yn hytrach na 60 mlynedd.
- Cyhoeddir penderfyniadau i ganiatáu i adolygiadau o orchmynion cadarnhaol ddod i ben am bedwar mis (nid oedd ein canllawiau blaenorol yn cyfeirio at yr hyd o amser y dylid cyhoeddi'r rhain).
- Cyhoeddir pob penderfyniad i dynnu enw oddi ar y gofrestr yn wirfoddol am un flwyddyn (nid oeddent yn cael eu cyhoeddi'n flaenorol).

Pan wneir penderfyniadau rheoleiddiol ynglŷn ag addasrwydd rhywun i ymarfer, byddwn yn esbonio'r rhesymau pam i'r person a gododd y pryder gyda ni ac i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio dan sylw.

- Os byddwn yn penderfynu cymryd camau rheoleiddiol i ddiogelu'r cyhoedd, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan er mwyn i unrhyw un weld y penderfyniadau a gymerwyd a pham.
- Pan fydd panel yn gosod gorchymyn interim, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniad ac yn ei nodi ar gofnod y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar y gofrestr.
- Pan fydd Archwilwyr Achosion yn cyhoeddi rhybudd neu'n cytuno â'r ymrwymiadau, cyhoeddir esboniad a'r rhesymau gyda chofnod y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar y gofrestr.
- Pan fydd panel yn penderfynu cyhoeddi rhybudd, amodau ymarfer, gwaharddiad neu orchymyn dileu enw oddi ar y gofrestr, byddwn yn cyhoeddi rhesymau llawn y panel ac yn nodi'r canlyniad ar gofnod y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar y gofrestr.

Mewn achosion sy'n gysylltiedig ag iechyd unigolyn, neu sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol arall, byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth ond mewn llai o fanylder fel arfer. Drwy wneud hynny byddwn yn diogelu'r cyhoedd ac yn parchu preifatrwydd yr unigolyn. Pan fyddwn yn penderfynu cau achos heb unrhyw gamau gweithredu pellach, nid ydym yn cyhoeddi gwybodaeth fel arfer am nad oes rheswm dros wneud hynny i ddiogelu'r cyhoedd ac mae gennym gyfrifoldeb i ddiogelu preifatrwydd y rhai sy'n gysylltiedig â'r achosion.

Mae ein cofrestr o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar gael **ar-lein yma**.

Mae gwybodaeth am wrandawiadau i'w cynnal a phenderfyniadau diweddar y panel ar gael **ar ein gwefan**.

# Ein Gwaith yn 2019–2020: datblygu ein dull gweithredu newydd

Eleni rydym wedi canolbwyntio ar fod yn rheoleiddiwr mwy caredig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, drwy roi llais i bobl sy'n gysylltiedig â'n hachosion addasrwydd i ymarfer a sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i bobl pan fyddant ei angen.

Rydym wedi parhau â'n gwaith i weithredu'r cyfeiriad strategol newydd a bennwyd gennym ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r dull gweithredu newydd hwn yn ceisio meithrin diwylliant sy'n annog ymddygiad agored, onest, cyfrifoldeb ac atebolrwydd ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol a'u helpu i atal camgymeriadau rhag digwydd eto, drwy ddysgu.

Rydym yn gwneud hyn drwy wneud y newidiadau canlynol i'n prosesau addasrwydd i ymarfer:

- sicrhau bod pobl yn ganolog yn y broses
- gweithio gyda chyflogwyr i ddelio â phryderon ar lefel leol
- ymgorffori pwysigrwydd ystyried cyd-destun achos yn ein penderfyniadau
- pwysleisio'r angen i roi cyfle i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gywiro a mynd i'r afael â phryderon ynghylch eu hymarfer
- ail-ddiffinio diben gwrandawiadau.

Wrth weithredu'r dull gweithredu strategol newydd hwn, rydym wedi cydweithio â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill i ddatblygu ein ffordd o feddwl a rhannu gwybodaeth ac arfer gorau.

## Gweithio gyda chyflogwyr i ddelio â phryderon ar lefel leol

Drwy weithio gyda chyflogwyr a phobl a allai fod wedi profi gofal gwael, rydym yn ceisio sicrhau bod pryderon yn cael eu datrys yn gyflym ac effeithiol gan gyflogwyr, er mwyn sicrhau ein bod ond yn ymchwilio pan fydd pryderon mor ddifrifol, ni ellir eu datrys ar lefel leol neu mae materion sy'n codi pryderon rheoleiddiol proffesiynol.

Yn 2019–2020, fe wnaethom ddatblygu canllaw i gyflogwyr sy'n nodi'r hyn a ddisgwyliwn o atgyfeiriad a'r trothwy ar gyfer ymyrraeth reoleiddiol. Cyflwynwyd y canllaw hwn ar sail beilot ar hyd y llynedd a chanfuwyd nad oedd 50 y cant o'r achosion a gyflwynwyd yn y cynllun peilot yn cyrraedd y trothwy. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a roddwyd gan randdeiliaid a gymerodd ran, er mwyn gwneud gwelliannau i'r canllaw. Roeddem wedi bwriadu lansio'r canllaw terfynol ym Mawrth 2020 ond rydym wedi gohirio hyn oherwydd y pandemig Covid-19.

## Pwysigrwydd y cyd-destun y bydd digwyddiadau'n digwydd

Mae'r nyrsys, bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio ar ein cofrestr yn gweithio'n eithriadol o galed i ddarparu gofal o'r safon orau i bawb y byddant yn gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi.

Ond gwyddom y gall camgymeriadau ddigwydd weithiau. Gall hyn fod o ganlyniad i faterion cymhleth achos neu oherwydd pwysau eu hamgylcheddau gwaith.

Rydym eisiau deall y ffactorau cyd-destunol ac amgylcheddol hyn a defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn gyson fel rhan o'n proses o wneud penderfyniadau.

Yn 2019–2020 fe wnaethom:

- datblygu canllaw polisi sy'n nodi perthnasedd cyd-destun a sut y byddwn yn ystyried hynny wrth wneud ein penderfyniadau
- datblygu offer i safoni a helpu ein timau i nodi cyd-destun
- rhannu gwybodaeth am gyd-destun gyda chyflogwyr, rheoleiddwyr eraill a rhanddeiliaid allweddol eraill.

> Dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol yr ydym eisiau cynnal gwrandawiadau

Fe wnaethom ddechrau profi ein hoffer a'n fframwaith cyd-destun yn 2019–2020. Roeddem wedi bwriadu cynnal ein cynllun peilot hyd at fis Mai 2020 ond cafodd ei oedi dros dro a'i ail-lansio ym mis Mai 2020 gyda ffocws diwygiedig wrth i ni ail-flaenoriaethu ein gweithgarwch addasrwydd i ymarfer o ganlyniad i'n hymateb i'r pandemig Covid-19. Rydym yn parhau i ddatblygu ein rhaglen hyfforddiant ar gyfer ein penderfynwyr er mwyn iddynt allu cymhwyso cyd-destun yn gyson yn 2020–2021.

## Helpu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i gywiro eu hymarfer

Drwy annog nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i drafod beth maent wedi'i wneud i gywiro unrhyw gamgymeriadau, byddwn yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu, bod yn agored a gonest ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gelwir hyn yn adferiad.

Eleni rydym wedi ail-gynllunio pecynnau gwybodaeth, gan ddefnyddio adborth o'n profion yn 2018–2019, er mwyn helpu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddeall diben y gwaith adfer a beth allai hynny ei olygu yn eu hachos hwy. Mae'r pecyn yn cynnwys cyfrif adlewyrchol a fydd yn helpu pobl gyda chynnwys a strwythur eu hadlewyrchiad hwy. Rydym hefyd wedi darparu astudiaethau achos i helpu pobl sy'n destun ymchwiliad i ddeall sut y gallai dweud wrthym am sut maent wedi adfer eu hymarfer hysbysu ein proses o wneud penderfyniad yn eu hachos hwy.

Yn 2019–2020 bu i ni lansio'r canllaw a'r pecyn gwybodaeth adferiad fel rhan o'n prosesau safon. Mae'r wybodaeth yn cael ei hanfon yn awr at bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio yng nghamau cynharaf ein proses.

## Ailddiffinio diben gwrandawiadau

Dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol yr ydym eisiau cynnal gwrandawiadau a phan nad ydym wedi gallu gweithio gyda'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i gytuno lle mae'r safonau gofal wedi bod yn is na'r safonau disgwyliedig.

Felly, pan na fydd unrhyw anghydfod perthnasol o'r ffeithiau, rydym yn disgwyl yn awr i'r achosion hyn

gael eu cwblhau mewn cyfarfod yn hytrach na gwrandawiad. Rydym wedi darparu hyfforddiant i aelodau ein panel ar y canllaw diwygiedig hwn cyn ei lansio ym Mehefin 2019 a chynhaliwyd hyfforddiant dilynol rhwng mis Ionawr a Mawrth 2020.

Rydym wedi gwneud newidiadau hefyd i'r wybodaeth a anfonwn at nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i gynnwys ein hymateb ni i'w hachos, a byddwn yn caniatáu iddynt ymateb. Mae'r ffurflen hefyd yn gwahodd y person i ddarparu gwybodaeth am ba gamau adferol maent wedi'u cymryd.

Rydym yn adolygu canlyniadau cyfarfodydd bob tri mis er mwyn nodi unrhyw gamau gweithredu pellach i'w cymryd.

## Darparu cymorth i bobl sy'n defnyddio gwasan-aethau ac aelodau a'u teuluoedd

I bobl sy'n profi gofal gwael, mae bod yn gysylltiedig ag achos addasrwydd i ymarfer yn aml yn brofiad anodd. Gwyddom y gall cymryd rhan yn y broses fod yn brofiad dryslyd, gofidus ac emosiynol a gallai olygu gorfod delio ag ymchwiliadau neu ymholiadau eraill yr un pryd.

Fe wnaethom sefydlu ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus (PSS) yn 2018 i ysgogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ein gwaith ar draws pob un o'n timau. Mae'r dull hwn yn ein galluogi i roi cefnogaeth briodol i bobl yn ein hachosion, gan wneud yn siŵr ein bod yn diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a rhoi llais iddynt yn y broses.

Eleni mae'r PSS wedi parhau i gyflawni nifer o fentrau er mwyn gwella'r profiad addasrwydd i ymarfer i bobl, gan gynnwys:

- Parhau i gwrdd ag aelodau'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â, neu sydd wedi'u heffeithio gan, atgyfeiriad addasrwydd i ymarfer i gynnig cymorth iddynt yn y broses. Hyd yma, rydym wedi cwrdd â mwy na 150 o bobl i wrando ar eu pryderon, ac esbonio ein rôl ni iddynt fel rheoleiddiwr a sut mae'r broses addasrwydd i ymarfer yn gweithio.
- Lansio menter newydd i nodi pobl a allai elwa o gael cymorth ychwanegol o'r pwynt o godi pryderon gyda ni.
- Lansio ein cynllun peilot llwybr cymorth cyhoeddus yn Rhagfyr 2019, a fydd yn sicrhau bod cymorth cyhoeddus penodol ar waith ar gyfer pobl o'r pwynt atgyfeirio. Bydd hefyd yn ein helpu i asesu difrifoldeb pryderon sy'n cael eu codi gyda ni drwy siarad yn gynnar â'r person sydd wedi'u codi, er mwyn i ni ddeall eu pryderon yn llawn. Mewn achosion pan na allwn gymryd camau gweithredu rheoleiddiol, rydym yn helpu pobl i ddeall ein rhesymau a'u cyfeirio at sefydliadau eraill a allai eu cynorthwyo neu ymchwilio i'w hachos. Bydd y cynllun peilot hwn yn canolbwyntio ar 100 o achosion, a byddwn yn adolygu'r cynllun peilot pan fydd pob un o'r achosion wedi'u cwblhau.

- Cynllunio sesiynau hyfforddiant ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pob aelod o staff newydd, i'w cynnal yn 2020–2021.
- Cyd-reoli llinell gymorth cefnogaeth emosiynol gyda Cymorth i Ddioddefwyr. Yn 2019–2020, gwnaed 880 o alwadau i'r llinell gymorth gan aelodau'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu aelodau eu teuluoedd a fu'n gysylltiedig â'n hachosion addasrwydd i ymarfer.

Buom yn gweithio drwy 2019–2020 i atgyfnerthu llais pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd yn y broses addasrwydd i ymarfer. Gwnaethom hynny drwy edrych ar sut y gallwn eu helpu i roi'r dystiolaeth orau yn eu hachos, gwella ein prosesu gwneud penderfyniadau, darparu mwy o eglurder i'r bobl dan sylw, datrys achosion yn gynharach a sicrhau bod ein proses yn fwy agored a thryloyw. Byddwn yn parhau i wneud y newidiadau hyn i'n proses yn ystod 2020-2021.

Ym mis Gorffennaf 2019 ni oedd y rheoleiddiwr cyntaf gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i gofrestru ag **ymgyrch Ask Listen Do** NHS Lloegr. Bwriad yr ymgyrch yw darparu ffyrdd haws i blant, pobl ifanc ac oedolion ag anabledd dysgu, awtistiaeth neu'r ddau, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, ddarparu adborth, codi pryderon neu wneud cwynion am addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mae adborth yn cynorthwyo sefydliadau i ddysgu o brofiadau pobl a gwella.

Rydym yn ymroddedig i helpu i ddylanwadu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwella profiadau pobl o ofal. Rydym yn awyddus i weithredu fel model rôl er mwyn sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithredu fel rheoleiddiwr yn gynhwysol, a'n bod yn annog adborth ac yn dysgu ohono ynglŷn â'n prosesau a'n camau gweithredu ein hunain.

Hyd yma, rydym wedi gwneud yn siŵr bod ein gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd mewn **fformat hawdd ei ddarllen** sy'n esbonio'r broses addasrwydd i ymarfer yn glir, gan gynnwys gwybodaeth ar ein gwefan ar sut i gysylltu â ni os bydd angen cymorth ychwanegol ar rywun, a gwneud yn siŵr ein bod yn cyfathrebu gyda phobl mewn ffordd sy'n cyflawni eu hanghenion.

Yn 2019–2020 fe wnaethom gynnal tri chyfarfod ein Grŵp Llywio Cymorth Cyhoeddus er mwyn ymgysylltu â'r grŵp llywio ar ein cynlluniau, syniadau a mentrau ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus. Bu'r grŵp llywio'n cyfrannu hefyd at y gwaith o ddatblygu ein **Strategaeth ar gyfer 2020–2025**.

Rydym yn cyflwyno polisi a phroses asesu anghenion er mwyn gwella'r ffordd rydym yn nodi lle mae angen gwneud addasiadau ar gyfer pobl y byddwn yn dod i gysylltiad â hwy trwy gydol y broses addasrwydd i ymarfer. Ym mis Rhagfyr 2019, fe wnaethom ddechrau treialu ffurflen asesu anghenion gydag aelodau'r cyhoedd a oedd wedi atgyfeirio pryderon atom. Rydym yn defnyddio'r data o'r treial hwn i gynllunio sut y byddwn yn cyflwyno'r dull gweithredu yn raddol i bob rhan o'r broses addasrwydd i ymarfer, a'i ehangu i gynnwys pawb sy'n gysylltiedig â'r broses.

Rydym yn gwneud mathau eraill o waith i helpu tystion a phartïon eraill sy'n gysylltiedig â'n hachosion, a allai fod yn agored i niwed. Mae'r gwaith yn cynnwys gwella'r wybodaeth sydd ar gael iddynt ar ein gwefan a sicrhau bod ein rhaglenni hyfforddiant ar gyfer staff a phenderfynwyr yn cynnwys cymorth ar gyfer pobl agored i niwed.

### Astudiaeth achos: Pwysigrwydd a'r budd o ddarparu cymorth o ddechrau'r broses i'w diwedd i aelodau'r cyhoedd.

Cododd cyflogwr bryderon gyda ni am berthynas nyrs gyda chlaf oedd yn agored iawn i niwed; roedd y cyflogwr yn credu bod y berthynas yn amhriodol.

Yn yr achosion sensitif hyn, mae'n hollbwysig ein bod yn clywed yn uniongyrchol gan y claf dan sylw er Mwyn i ni allu cyflawni ein rôl reoleiddiol yn gywir. Mae hyn yn golygu cymryd datganiad ganddynt ddechrau achos a rhoi tystiolaeth o bosibl mewn gwrandawiad. Mae'n brofiad anodd a gofidus i lawer o bobl, ond yn arbennig i'r rhai y gellir eu disgrifio yn agored i niwed.

Roedd y claf yn yr achos hwn yn dibynnu'n helaeth arnom o ran sicrwydd i'w gwneud i deimlo y gallent gymryd rhan yn y broses addasrwydd i ymarfer. Roeddem yn gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi amser digonol iddynt drafod eu holl bryderon gyda ni ynglŷn â bod yn dyst. Fe wnaethom drafod eu pryderon gyda hwy, a sicrhau ein bod yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn hygyrch iddynt. Pan gyfwelwyd y claf, daeth aelod o'n tîm Cymorth Cyhoeddus gyda hwy i ddarparu cefnogaeth.

Pan gafodd yr achos ei atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad, roedd y claf yn bryderus iawn ynglŷn â'r posibilrwydd o orfod rhoi tystiolaeth a chael eu chroesholi. Fe wnaethom dreulio amser yn rhoi'r sicrwydd oedd ei angen arnynt ac esbonio'r mesurau y gallwn eu cynnig iddynt, gan gynnwys y posibilrwydd o roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo.

Fe wnaethom barhau i gysylltu'n rheolaidd gyda'r claf, a phan oeddent yn sâl, fe wnaethom gymryd y camau angenrheidiol i ohirio'r broses er mwyn iddynt allu cyfranogi yn llawn ar ôl gwella. Bob tro yr ar oedd angen i ni anfon gwybodaeth sensitif atynt, roeddem yn eu ffonio wedyn i drafod unrhyw bryderon neu gwestiynau a oedd ganddynt.

Er ein bod wedi darparu cymorth wyneb yn wyneb yn y gwrandawiad roedd yn parhau i fod yn broses anodd a blinedig iawn i'r claf ac fe gymerodd mwy o amser na'r disgwyl, ond roeddem wedi'u paratoi orau ag y gallwn ar beth i'w ddisgwyl er mwyn sicrhau na fyddent yn cael eu dychryn gan unrhyw agwedd ar y gwrandawiad.

Mae'n annhebygol y byddem wedi cael y lefel o gyfranogiad gan y claf yn yr achos hwn pe na fyddem wedi darparu cymaint o amser, gofal a chefnogaeth. Gallai hyn fod wedi cael effaith andwyol ar gryfder ein tystiolaeth a datblygiad yr achos hwn.

Cafodd casgliad y gwrandawiad ei ohirio oherwydd ein hymateb i'r pandemig Covid-19, ond dywedodd y tyst wrthym eu bod yn ddiolchgar iawn ein bod wedi gallu eu cefnogi yn ystod y gwrandawiad.

## Darparu cymorth i nyrsys, bydwragedd a chym-deithion nyrsio

Rydym yn awyddus hefyd i wella'r profiad y mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn ei gael gyda ni os ydynt yn canfod eu hunain yn destun ymchwiliad addasrwydd i ymarfer.

Yn 2019–2020 fe wnaethom lansio llinell gyfrinachol am ddim i gofrestreion sy'n destun cwyn addasrwydd i ymarfer, er mwyn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol annibynnol. Mae'r gwasanaeth ar gael 365 diwrnod y flwyddyn, 24 awr y dydd naill ai drwy'r llinell ffôn, gwasanaeth sgwrs fyw neu e-bost. Mae'n darparu mynediad at gwnselwyr, sydd wedi'u hyfforddi i weithio gydag achosion personol a sensitif a gallant atgyfeirio pobl at sefydliadau arbenigol a gwasanaethau llesiant a all helpu gyda materion fel dyled, dibyniaeth neu brofedigaeth.

"Yn 2019–2020 fe wnaethom lansio llinell gyfrinachol am ddim i gofrestreion sy'n destun cwyn addasrwydd i ymarfer"

Ers ei lansio yn Hydref 2019 hyd at 31 Mawrth 2020, derbyniodd y llinell ofal 280 o alwadau gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Rydym wedi diweddaru ein llythyrau i hysbysu pobl am y gwasanaeth ac rydym yn ei hyrwyddo yn ein canolfannau gwrandawiadau a thrwy ein sianelau yn y cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r gwasanaeth flwyddyn ar ôl ei lansio.

Rydym wedi dechrau adolygu'r wybodaeth rydym yn ei darparu ar ein gwefan gyhoeddus i bobl sy'n canfod eu hunain yn destun ymchwiliad, er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn hygyrch, cywir, clir a dealladwy. Bu i ni gynnal arolwg a dderbyniodd tua 600 o ymatebion ac rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i:

- darparu mwy o wybodaeth i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ynglŷn â chamau cynnar y broses addasrwydd i ymarfer
- esbonio pwysigrwydd ymgysylltiad yn y broses a sut y gall effeithio ar yr achos, a'i gwblhau'n gynharach, gyda chysylltiadau i'n gwybodaeth adfer
- darparu gwybodaeth mewn fformat hawdd ei ddarllen
- cynnwys gwybodaeth am addasiadau rhesymol, ein llinell ofal, **ymddiriedolaeth Cavell ar gyfer nyrsys** a sefydliadau cymorth allanol eraill
- dileu gwybodaeth sy'n cael ei dyblygu.

Rydym wedi parhau i gofnodi achosion pan fyddwn yn dysgu bod yr aelod cofrestredig yn anffodus wedi cymryd eu bywyd eu hunain tra bydd ein hachos yn parhau, er mwyn ein helpu i nodi unrhyw beth i'w ddysgu a gwella ein prosesau. Yn 2019–2020 roedd un achos a gofnodwyd (2018–2019: pedwar achos).

## Atgyfnerthu ein penderfyniadau gyda chyngor clinigol

Rydym wedi cyflwyno rolau cynghorydd clinigol i'r broses addasrwydd i ymarfer. Maent yn darparu cyngor ar achosion am ymarfer clinigol er mwyn sicrhau ein bod yn deall y materion clinigol a sefydliadol yn llwyr yn yr achos. Mae chwe chynghorydd clinigol yn y tîm, sef pum nyrs ac un fydwraig.

### Astudiaeth achos: Defnyddio cyngor clinigol

Cafod nyrs iau ei chyfeirio yn dilyn marwolaeth claf ifanc iawn yn ei gofal. Ceisiwyd cyngor clinigol ar y gofal yr oedd y nyrs wedi'i ddarparu i'r claf.

Nododd yr adolygiad o'r achos a gynhaliwyd gan y tîm clinigol bryderon ehangach hefyd, yn benodol ynglŷn â'r gefnogaeth glinigol a dderbyniodd y nyrs iau gan uwch nyrys ar y shifft gyda hwy. Fe arweiniodd hyn at agor ail achos gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y nyrs a oedd yn gyfrifol am y sifft yr oedd y Fe nyrs iau yn gweithio arni.

Mae'r ddau achos yn parhau.

## Cyswllt Cyflogwyr a Gwybodaeth Reoleiddiol

Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr (ELS) yn parhau i ehangu ei ymgysylltiad â chyflogwyr nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, rheoleiddwyr eraill a sefydliadau goruchwyliaeth strategol drwy ein rhwydwaith o gynghorwyr rheoleiddiol.

Eleni, cyflwynodd yr ELS strategaeth dair blynedd a oedd yn cynnwys cynigion i ehangu cwmpas y gwasanaeth a datblygu ymhellach ei ymgysylltiad â chyflogwyr a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

- Cynghorwyr rheoleiddio arweiniol i ddatblygu ein cysylltiadau ag aelodau ar y gofrestr a chyflogwyr ym maes gofal cymdeithasol, iechyd annibynnol ac iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Nodwyd y meysydd hyn fel meysydd allweddol o ymarfer lle gallai nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio fod mewn mwy o risg o gael eu hatgyfeirio at y broses addasrwydd i ymarfer.
- Cynnal arolwg o gyflogwyr yr oedd yr ELS wedi sefydlu perthynas â hwy i gefnogi datblygu ymgysylltiad gyda mathau eraill o gyflogwyr a sectorau.
- Ceisio canfod cyfleoedd newydd i weithio gyda rheoleiddwyr systemau i wneud cyfraniadau mwy effeithiol ar gyfer cyflenwi gofal gwell, mwy diogel yn unol â Chynllun Tymor Hir y GIG. Uchelgais y cynllun yw cyflwyno system gofal integredig ar draws Lloegr erbyn 2021.

- Rhannu adnoddau gyda rheoleiddwyr eraill i greu proffil o randdeiliaid allweddol, grwpiau a rhwydweithiau sy'n mynd i'r afael â phryderon ynglŷn ag ansawdd ar draws lleoliadau gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol ar hyd a lled Lloegr, gyda chynlluniau i'w hailadrodd ar draws pob un o'r gwledydd datganoledig.

Bu i ni weithio gyda rheoleiddwyr eraill i adolygu a gwella'r **Protocol pryderon datblygol** yn Lloegr, sy'n ein galluogi i rannu gwybodaeth am risgiau yn gyflym a chymryd camau cynnar a chydgysylltiedig i ddiogelu'r cyhoedd. Rydym yn trafod y materion rydym wedi'u nodi gyda rheoleiddwyr a sefydliadau eraill.

Mewn ymateb i'r wybodaeth sy'n dod i'r amlwg drwy ein Grŵp Cydlynu Gwybodaeth mewnol, gallai'r ELS ddechrau datblygu protocol cyfatebol yn yr Alban. Mae hyn yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â rheoleiddwyr gofal iechyd yr Alban a'r DU ac aelodau'r Grŵp Cenedlaethol Rhannu Gwybodaeth Iechyd a Gofal yn yr Alban.

Os bydd asiantaethau eraill, er enghraifft yr heddlu neu'r crwner, hefyd yn ymchwilio i achosion sydd wedi'u hatgyfeirio atom, gall hyn achosi oedi. Rydym yn mabwysiadu dull achos wrth achos pan fyddwn yn ymrwymo i gytundebau rhannu gwybodaeth gyda heddluoedd, pan fyddwn yn ceisio gwybodaeth ganddynt i'n galluogi i gynnal ein hymchwiliadau.

Mae'r ELS yn darparu llinell gyngor i gyflogwyr er mwyn cefnogi dull gweithredu teg a chyson at unrhyw bryderon sydd gan gyflogwyr ynglŷn ag addasrwydd rhywun i ymarfer ac a oes angen i ni gymryd unrhyw gamau rheoleiddiol.

Galwadau i linell gyngor yr ELS yn 2019–2020:

**340** galwad gan sefydliadau'r GIG

**273** galwad gan y sector annibynnol a sefydliadau gofal cymdeithasol oedolion

**25** galwad gan asiantaethau nyrsio

**22** galwad gan Grwpiau Comisiynu Clinigol (CCG) a gofal sylfaenol

**20** galwad gan sefydliadau eraill

**4** galwad gan sefydliadau addysg

**2** galwad gan reoleiddwyr eraill

**Cyfanswm: 686 galwad i'r llinell cyngor**

O’r galwadau a dderbyniwyd gan y llinell gyngor, cynghorwyd 295 o’r galwyr i wneud atgyfeiriad at ein timau addasrwydd i ymarfer a chafodd 330 eu cynghori i beidio atgyfeirio neu i reoli’r mater yn lleol i ddechrau.

Eleni, cafodd y cynghorwyr rheoleiddio 252 o gyfarfodydd gyda chyfarwyddwyr gwasanaethau nyrsio a bydwreigiaeth, a bu iddynt ymgysylltu â grwpiau o gyflogwyr a rhanddeiliaid 301 o weithiau.

Mae’r Uned Gwybodaeth Reoleiddiol (RIU) wedi parhau i ddatblygu offer i wella ein gallu i ddadansoddi ein data a gwybodaeth allanol er mwyn helpu ein prosesau gwneud penderfyniadau a chasglu gwybodaeth am ein prosesau rheoleiddiol.

Yn 2019–2020, bu i ni sefydlu dau femorandwm cyd-ddealltwriaeth a chytundebau rhannu data gyda rheoleiddwyr a sefydliadau eraill ar draws y DU.

Rydym yn rhannu pryderon gyda chyrff rheoleiddiol a sefydliadau eraill pan fyddwn yn credu y gallai fod angen iddynt gymryd camau i ddiogelu’r cyhoedd. Yn 2019–2020, fe wnaethom atgyfeirio 176 o achosion at sefydliadau eraill.

**82** i reoleiddiwr systemau

**26** i reoleiddiwr proffesiynol

**62** i Wasanaeth Datgelu a Gwahardd Yr Alban

**6** i eraill, gan gan gynnwys awdurdodau diogelu lleol

### Astudiaeth achos: Gwybodaeth Reoleiddiol

Bu i ni dderbyn pryderon a oedd yn awgrymu bod Ymddiriedolaeth wedi datgan argyfwng mewnol am eu bod yn cael anhawster i ymdopi â'r nifer o unigolion a oedd angen gofal.

Bu i ni gynnal asesiad o wybodaeth a nodwyd y gallai diogelwch cleifion a gofal cleifion fod wedi'i gyfaddawdu oherwydd y nifer uchel o gleifion a'r broses o reoli'r llif o gleifion drwy'r lleoliad. O ganlyniad i hyn, nodwyd y gallai hyn effeithio ar ddysgu myfyrwyr.

Oherwydd natur y pryder, rhannwyd gwybodaeth gyda'n tîm Addysg a Safonau. Mae'r tîm wedi bod mewn cysylltiad cyson â'r Sefydliad awgrymu Addysg a Gymeradwywyd gan yr NMC, sy'n lleoli myfyrwyr nyrsio a yn bydwreigiaeth yn yr Ymddiriedolaeth o fel rhan o'u rhaglen addysg. Rhannwyd y wybodaeth hon gennym hefyd gyda'r Cyngor Meddygol nodwyd Cyffredinol er mwyn iddynt allu gofal ystyried unrhyw effaith ar feddygon a myfyrwyr meddygol a gyda'r broses rheoleiddiwr system, y Comisiwn.

Ymatebodd y Sefydliad Addysg Cymeradwy a nododd lefelau uchel o foddhad ymhlith y myfyrwyr, ond yna cafodd y lleoliad dysgu ymarfer ei atal oherwydd y pandemig Covid-19, cyn i waith ychwanegol gael ei wneud.

Y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi'r mathau mwyaf cyffredin o honiadau a brofwyd yn ein gwrandawiadau a'n cyfarfodydd am y tro cyntaf, ac mae'r tri chategori uchaf wedi parhau'n ddigyfnewid ar gyfer 2019–2020.

Y tri chategori uchaf lle profwyd y rhan fwyaf o honiadau oedd gofal cleifion, cadw cofnodion a rhagnodi a rheoli meddyginiaethau. Yr honiadau mwyaf cyffredin yn y categorïau hyn oedd:

| Honiad Lefel Un (% o'r holl honiadau) | Honiad Lefel Dau |
|---|---|
| Gofal cleifion 21% | Diagnosis, arsylwi, asesu<br>Ymateb amhriodol neu oedi i arwyddion negyddol, dirywiad, neu ddigwyddiadau<br>Delio â chleifion |
| Cadw cofnodion 16% | Cofnodion cleifion neu glinigol<br>Cofnodion cyffuriau neu feddyginiaeth<br>Materion eraill cadw cofnodion |
| Rhagnodi a rheoli meddyginiaethau 16% | Peidio â gweinyddu neu wrthod gweinyddu meddyginiaeth<br>Rhagnodi<br>Gweinyddu cyffur anghywir |

Lefel un yw'r categori honiadau pennawd ac mae lefel dau yn darparu mwy o fanylion am y math o honiad.

# Crynodeb ystadegol 2019–2020

## Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Rydym yn awyddus i sicrhau canlyniad sy'n diogelu'r cyhoedd orau cyn gynted â phosibl ym mhob achos ac rydym yn mesur hyn gyda dau ddangosydd perfformiad allweddol.

- Pan fydd angen, rydym yn anelu at osod 80 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod o dderbyn y pryderon. Ar ddiwedd y flwyddyn hon, roedd ein perfformiad yn 81 y cant (2018-2019: 84 y cant).
- Rydym yn anelu at gwblhau 80 y cant o'n hachosion o fewn 15 i'w derbyn. Ar ddiwedd y flwyddyn hon, roedd ein perfformiad yn 81 y cant (2018-2019: 86 y cant).

Rydym wedi gosod
**81 y cant**
**o orchmynion interim**
o fewn **28 diwrnod**
i bryderon gael eu codi gyda ni
(2018–2019: 84 y cant)

Fe wnaethom gwblhau
**81 y cant**
**o'n hachosion**
o fewn **15 mis**
(2018–2019: 86 y cant)

## Nifer y pryderon

Yn 2019–2020 fe wnaethom dderbyn 5,704 pryder newydd, cynnydd o 6 y cant ar y llynedd (2018–2019: 5,373). Mae'r nifer o bryderon a dderbyniwyd eleni yn cynrychioli tua 8 atgyfeiriad am bob 1,000 aelod cofrestredig ar ein cofrestr.

**Yn 2019–2020 fe wnaethom dderbyn 5,704 pryder newydd**

**6%** o gynnydd ar y llynedd

| | 2019–20 | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|---|
| Nifer y pryderon a dderbyniwyd | 5,704 | 5,373 | 5,509 |

## Ffynonellau'r pryderon

Rydym wedi parhau i weld gostyngiad yn y gyfran o atgyfeiriadau gan gyflogwyr, ond rydym wedi cofnodi cynnydd yn nifer y pryderon a godwyd gan aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau gan aelodau'r cyhoedd yn ymwneud â nyrsys. Mae hyn i'w ddisgwyl, oherwydd mae nyrsys yn cynrychioli canran uwch o'r gofrestr, ond canfu ein dadansoddiad bod bydwragedd yn gyfrannol fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio atom gan aelodau'r cyhoedd.

Byddwn yn parhau i ddadansoddi ein data i archwilio'r rhesymau dros y gyfran uwch o atgyfeiriadau ynglŷn â bydwragedd.

Wrth adolygu'r pryderon a godwyd gan aelodau'r cyhoedd rhwng Ionawr 2014 a Hydref 2019, fe wnaethom ganfod mai'r mathau mwyaf cyffredin o bryderon a dderbyniwyd am nyrsys a bydwragedd oedd:

- gofal cleifion
- materion cyfathrebu
- anonestrwydd.

### Tabl 1: Ffynhonnell pryderon a gyfeiriwyd atom

| | 2019–20 | | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|
| **Pwy atgyfeiriodd y pryder atom** | **Nifer y pryderon newydd** | **Canran y pryderon newydd** | **Canran y pryderon newydd** | **Canran y pryderon newydd** |
| Claf/y cyhoedd | 1,861 | 33% | 29% | 27% |
| Hunanatgyfeiriad | 429 | 8% | 8% | 10% |
| Cyflogwr | 1,798 | 32% | 35% | 40% |
| Agorwyd gan yr NMC | 246 | 4% | 4% | 6% |
| Cofrestrai arall | 214 | 4% | 4% | 3% |
| Rheoleiddiwr arall | 57 | <1% | <1% | <1% |
| Atgyfeiriwr yn anhysbys | 570 | 10% | 7% | 4% |
| Unrhyw hysbysydd arall | 529 | 9% | 12% | 10% |
| **Cyfanswm** | **5,704** | **100%** | **100%** | **100%** |

## Pryderon pan nad ydym yn adnabod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio

Mewn rhai achosion a godwyd gyda ni, nid ydym yn llwyddo, neu nid ydym yn adnabod rhywun ar ein cofrestr. Yn 2019–2020 fe wnaethom adnabod rhywun mewn 1,429 o'r achosion newydd a godwyd gyda ni. Ymhlith y rhesymau dros beidio adnabod rhywun mae:

- Nid yw'r person yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig.
- Derbyniwyd y pryder ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn a bydd y broses nodi yn cael ei chynnal yn 2020–2021.
- Nid yw'r pryderon a godwyd yn ddigon difrifol i gyflawni ein trothwy rheoleiddiol.

Pan fyddwn yn derbyn pryderon newydd, rydym yn defnyddio proses sgrinio pedwar cam i benderfynu a oes angen ymchwilio'n llawn i'r achos. Mae'r canllaw ar gael **ar ein gwefan**. Yn 2018, fe wnaethom adolygu sut yr oedd ein penderfynwyd yn defnyddio ac yn cymhwyso'r canllaw hwn a datblygwyd dull diwygiedig ar gyfer gwneud penderfyniadau a chofnodi, a ysgogwyd hefyd gan **Adolygiad o'r Gwersi a Ddysgwyd** yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Mewn llawer o achosion, rydym yn cau achos ar y cam cyntaf ar ôl penderfynu nad yw'r pryderon yn ddigon difrifol i gyflawni ein trothwy rheoleiddiol, ac felly nid ydym yn symud ymlaen i adnabod rhywun ar ein cofrestr.

## Pryderon yn ôl gwlad cyfeiriad cofrestredig

Fe wnaethom adnabod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio mewn 4,275 o achosion, wedi'u dadansoddi isod yn ôl gwlad cyfeiriad cofrestredig.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gogledd Iwerddon | 149 achos | 3% o gyfanswm y pryderon | 4% o'r gofrestr |
| Yr Alban | 464 achos | 11% o gyfanswm y pryderon | 10% o'r gofrestr |
| Lloegr | 3,365 achos | 79% o gyfanswm y pryderon | 79% o'r gofrestr |
| Cymru | 228 achos | 5% o gyfanswm y pryderon | 5% o'r gofrestr |
| Yr UE a Thramor | 69 achos | 2% o gyfanswm y pryderon | 2% o'r gofrestr |

## Pryderon yn ôl y math o gofrestriad

Gall unigolyn fod wedi'u cofrestru gyda ni fel nyrs, bydwraig, neu fel nyrs a bydwraig (a elwir yn gofrestriad deuol) neu'n gydymaith nyrsio.

Mae Tabl 2 yn dangos y nifer o atgyfeiriadau newydd, sydd wedi'u dadansoddi yn ôl y math o gofrestriad. Ni fu unrhyw newid perthnasol yng nghyfran yr atgyfeiriadau yn ôl math o gofrestriad, o gymharu â 2018–2019.

### Tabl 2: Atgyfeiriadau newydd yn ôl y math o gofrestriad

| | 2019–20 | | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|
| Math o gofrestriad | Nifer yr atgyfeiriadau newydd | Canrancyfanswm yr atgyfeiriadau (canran y gofrestr) | Canran cyfanswm yr atgyfeiriadau | Canran cyfanswm yr atgyfeiriadau |
| Nyrs | 4,033 | 94% (93%) | 95% | 95% |
| Bydwraig | 227 | 5% (5%) | 5% | 5% |
| Cofrestriad deuol | 11 | <1% (<1%) | <1% | 0% |
| Cydymaith nyrsio | 4 | <1% (1%) | 0% | N/A |
| **Cyfanswm** | **4,275** | **100%** | **100%** | **100%** |

## Canlyniadau asesiad cychwynnol

Yn 2019-2020, fe wnaethom benderfynu peidio ymchwilio i 2,981 o achosion yn dilyn yr asesiad cychwynnol, oherwydd roeddem o'r farn nad oedd y pryderon yn galw am gamau gweithredu rheoleiddiol, neu am nad oeddem wedi gallu adnabod y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar ein cofrestr, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae hyn yn cynrychioli 64 y cant o atgyfeiriadau, sy'n unol yn fras â'r cyfraddau cau dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2018–2019 fe wnaethom benderfynu peidio ymchwilio 63 y cant o atgyfeiriadau ac yn 2017–2018 roedd yn 56 y cant.

Er bod y gyfradd yn cyfateb â'r blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gweld llai o benderfyniadau ar ein cam cychwynnol eleni oherwydd capasiti llai yn ein tîm gwneud penderfyniadau.

## Gorchmynion interim

Yn 2019–2020, gosododd ein paneli orchmynion interim i ddiogelu'r cyhoedd wrth i ymchwiliadau barhau mewn 561 achos (2018–2019: 506 a 2017–2018: 580). Mae Tabl 3 yn dangos y dadansoddiad rhwng y ddau fath o orchymyn interim.

### Tabl 3: Gorchmynion interim a osodwyd

| Penderfyniadau gorchymyn interim | 2019–20 | | 2018–19 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y gorchmynion interim | Canran y gorchmynion interim | Nifer y gorchmynion interim | Canran y gorchmynio interim | Nifer y gorchmynion interim | Canran y gorchmynion interim |
| Amodau interim ymarfer | 316 | 56% | 268 | 53% | 309 | 53% |
| Gwaharddiad interim | 245 | 44% | 238 | 47% | 271 | 47% |
| **Cyfanswm** | **561** | **100%** | **506** | **100%** | **580** | **100%** |

Mae Tabl 4 yn dadansoddi'r nifer o orchmynion interim a orfodwyd yn ôl y math o gofrestriad. Ni fu unrhyw newid perthnasol yng nghyfran y gorchmynion interim a orfodwyd yn ôl y math o gofrestriad yn 2017–2018 a 2018–2019.

### Tabl 4: Gorchmynion interim a orfodwyd yn ôl y math o gofrestriad

| Penderfyniadau gorchmynion interim | 2019–20 | | | | 2018–19 | | | | 2017–18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Cydymaith Nyrsio | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Cydymaith Nyrsio | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
| Amodau interim ymarfer | 303 (56%) | 13 (57%) | 0 | 0 | 251 (53%) | 16 (58%) | 0 | 1 (<1%) | 284 (52%) | 25 (71%) | 0 |
| Gwaharddiad interim | 234 (44%) | 10 (43%) | 0 | 1 (100%) | 225 (47%) | 12 (42%) | 0 | 1 (<1%) | 261 (48%) | 10 (29%) | 0 |
| **Cyfanswm** | **537** | **23** | **0** | **1** | **476** | **28** | **0** | **2** | **545** | **35** | **0** |

## Canlyniadau Archwilwyr Achosion

Yn 2019–2020, bu i'n Harchwilwyr Achosion wneud 1,405 o benderfyniadau (2018–2019: 1,638) ar ddiwedd ymchwiliad. Eleni, gwelsom lif gwell o achosion gan ein timau ymchwilio i'r Archwilwyr Achosion, ond roedd llai o benderfyniadau gan Archwilwyr Achosion. Bu i ni gynnal dadansoddiad a chanfod bod hyd penderfyniadau ysgrifenedig ein Harchwilwyr Achosion wedi cynyddu dros amser, gan gyfrannu at y nifer is o benderfyniadau.

Rydym yn darparu canllawiau i'n penderfynwyr, a'n Harchwilwyr Achosion, ar yr hyn sydd ei angen mewn penderfyniad, wrth i ni gydnabod nad oes angen i benderfyniadau ansawdd fod mor hir, cyhyd ag y byddant yn glir. Bydd y canllaw yn helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau yn gyson. Bu i ni gynnal gwiriadau ansawdd o'r penderfyniadau

a wnaed a rhoi adborth i benderfynwyr, ar feysydd o arfer da a meysydd i'w datblygu. Mae'r dull hwn yn parhau i gael ei ddatblygu a chaiff ei atgyfnerthu yn y flwyddyn nesaf gan reolwyr recriwtio, er mwyn darparu gwybodaeth well ac ymgorffori yn ein tîm newydd ar Ansawdd Penderfyniadau. Rydym hefyd yn recriwtio Archwilwyr Achosion dros dro ychwanegol i gefnogi ein tîm presennol i weithio drwy'r ôl-groniad presennol o achosion.

Mae Tabl 5 yn dadansoddi penderfyniadau'r Archwilwyr Achosion yn ôl canlyniad. Gwelsom ostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion lle rhoddwyd rhybuddion eleni. Roedd hyn oherwydd y ffordd mae egwyddorion polisi ein dull gweithredu strategol newydd wedi'u defnyddio'n ymarferol. Rydym wedi adolygu ein canllawiau ar rybuddion ac wedi dechrau gweld cynnydd bychan yn ystod misoedd olaf y flwyddyn. Nid ydym yn disgwyl i'r nifer o rybuddion ddychwelyd i'r lefelau blaenorol.

## Tabl 5: Canlyniadau Archwilwyr Achosion 2019–2020

| | 2019–20 | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|---|
| **Penderfyniadau Archwilwyr Achosion** | **Nifer yr achosion** | **Nifer yr achosion** | **Nifer yr achosion** |
| Atgyfeiriad ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod | 534 (38%) | 520 (32%) | 819 (37%) |
| Cyngor | 7 (<1%) | 12 (<1%) | 24 (1%) |
| Rhybudd | 6 (<1%) | 102 (6%) | 93 (4%) |
| Ymrwymiad | 46 (3%) | 41 (3%) | 28 (1%) |
| Dim camau pellach | 812 (58%) | 963 (59%) | 1,270 (57%) |
| **Cyfanswm** | **1,405** | **1,638** | **2,234** |

Mae Tabl 6 yn dadansoddi nifer y penderfyniadau a wnaed gan yr Archwilwyr Achosion yn ôl y math o gofrestriad. Fel yn 2018–2019, mae'n ymddangos bod achosion ynglŷn â bydwragedd ychydig yn llai tebygol o gael eu cau heb unrhyw gamau pellach ac ychydig yn fwy tebygol o gael eu cau gyda rhybudd neu ymrwymiad neu atgyfeiriad at wrandawiad neu gyfarfod.

### Tabl 6: Y nifer o benderfyniadau yn ôl y math o gofrestriad

| Penderfyniad yr Archwilwyr Achosion | 2019–20 | | | 2018–19 | | | 2017–18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
| Atgyfeiriad ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod | 514 (39%) | 20 (24%) | 0 | 490 (32%) | 30 (37%) | 0 | 770 (37%) | 49 (40%) | 0 |
| Cyngor | 5 (<1%) | 2 (2%) | 0 | 12 (1%) | 0 | 0 | 22 (1%) | 2 (2%) | 0 |
| Rhybudd | 6 (<1%) | 0 | 0 | 94 (6%) | 7 (9%) | 1 (20%) | 87 (4%) | 6 (5%) | 0 |
| Ymrwymiad | 41 (3%) | 5 (6%) | 0 | 37 (2%) | 4 (5%) | 0 | 22 (1%) | 6 (5%) | 0 |
| Dim camau pellach | 757 (57%) | 55 (67%) | 0 | 919 (59%) | 40 (49%) | 4 (80%) | 1,211 (57%) | 59 (48%) | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,323** | **82** | **0** | **1,552** | **81** | **5** | **2,112** | **122** | **0** |

Ni chafwyd unrhyw benderfyniadau gan Archwilwyr Achosion ar achosion cymdeithion nyrsio ers cyflwyno'r rôl cydymaith nyrsio yn Ionawr 2019.

Mae Archwilwyr Achosion yn gweithio mewn parau. Mae hyn ohonynt yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig, ac mae un yn berson lleyg. Os na all yr Archwilwyr Achosion gytuno ar ganlyniad, mae'n rhaid iddynt gyfeirio'r achos at banel annibynnol y Pwyllgor Ymchwilio. Ni chyfeiriwyd unrhyw achosion at y Pwyllgor Ymchwilio yn 2019–2020 (2018–2019: 0 a 2017–2018: 0).

## Canlyniadau gwrandawiadau a chyfarfodydd

Yn 2019–2020, bu i'n paneli wneud 452 o benderfyniadau terfynol ar achosion (2018–2019: 661 a 2017–2018: 1,207) drwy gyfarfodydd a gwrandawiadau. Mae Tabl 7 yn dadansoddi penderfyniadau'r panel yn ôl math. Mae'r gostyngiad yn nifer y canlyniadau gwrandawiadau a chyfarfodydd yn adlewyrchu nifer is o achosion yn cael eu hatgyfeirio gan Archwilwyr Achosion.

Fel rhan o'n dull gweithredu newydd at addasrwydd i ymarfer, rydym wedi gweithio gyda nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio a'u cynrychiolwyr i ddatrys mwy o achosion ar gamau cynharach yn y broses addasrwydd i ymarfer. Pan fydd achosion yn cael eu hatgyfeirio ymlaen gan Archwilwyr Achosion, rydym yn annog adferiad ac ymgysylltiad er mwyn datrys mwy o achosion mewn cyfarfodydd.

## Tabl 7: Penderfyniadau'r Panel

| Penderfyniad y Panel | 2019–20 | | 2018–19 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Dileu oddi ar y gofrestr | 127 | 28% | 162 | 25% | 257 | 21% |
| Ataliad | 142 | 32% | 231 | 35% | 372 | 31% |
| Amodau ymarfer | 69 | 15% | 99 | 15% | 165 | 14% |
| Rhybudd | 42 | 9% | 57 | 8% | 129 | 11% |
| Amharu ar AiY – dim cosb | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **380** | **84%** | **549** | **83%** | **923** | **77%** |
| Ni phrofwyd y ffeithiau | 5 | 1% | 17 | 3% | 5 | <1% |
| Amharu ar AiY | 67 | 15% | 95 | 14% | 279 | 23% |
| **Cyfanswm penderfyniadau'r panel** | **452** | **100%** | **661** | **100%** | **1,207** | **100%** |

Mae Tabl 8 yn dadansoddi penderfyniadau'r panel yn ôl y math o gofrestriad. Rydym wedi gweld newid yn nosbarthiad cosbau i fydwragedd eleni, ond o ystyried y niferoedd isel, nid ydym wedi ffurfio unrhyw gasgliadau cadarn ar hyn.

## Tabl 8: Canlyniadau'r Panel yn ôl y math o gofrestriad

| Penderfyniad y | 2019–20 | | | 2018–19 | | | 2017–18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Cydymaith Nyrsio | Nyrs | Bydwraig | Cydymaith Nyrsio | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
| Dileu oddi ar y gofrestr | 123 (29%) | 4 (14%) | 0 | 155 (25%) | 7 (24%) | 0 | 243 (21%) | 14 (27%) | 0 |
| Ataliad | 132 (31%) | 10 (36%) | 0 | 224 (35%) | 7 (24%) | 0 | 355 (31%) | 17 (33%) | 0 |
| Amodau ymarfer | 62 (15%) | 7 (25%) | 0 | 92 (15%) | 7 (24%) | 0 | 157 (14%) | 8 (16%) | 0 |
| Rhybudd | 39 (9%) | 3 (11%) | 0 | 57 (9%) | 0 | 0 | 127 (11%) | 2 (4%) | 0 |
| Amharu ar AiY – dim cosb | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **356** | **24** | **0** | **528** | **21** | **0** | **882** | **41** | **0** |
| Ni phrofwyd y ffeithiau | 4 (<1%) | 3 (11%) | 0 | 16 (2%) | 1 (4%) | 0 | 5 (<1%) | 0 (0%) | 0 |
| Amharu ar AiY | 64 (15%) | 1 (3%) | 0 | 88 (14%) | 7 (24%) | 0 | 269 (23%) | 10 (20%) | 0 |
| **Cyfanswm** | **424** | **28** | **0** | **632** | **29** | **0** | **1,156** | **51** | **0** |

## Cofnodion twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr

Mae ein paneli yn ystyried honiadau bod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi'i hychwanegu at y gofrestr yn anghywir neu'n dwyllodrus. Os ydynt yn gallu profi'r honiad, gall y panel gyfeirio'r Cofrestrydd i ddileu neu ddiwygio'r cofnod ar y gofrestr.

Yn 2019–2020, cyfeiriodd ein paneli i'r Cofrestrydd ddileu nyrs neu'r fydwraig oddi ar y gofrestr mewn 33 o achosion (2018–2019: 34 a 2017–2018: 60).

## Tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol

Ar ôl i achos gael ei gyfeirio ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod, gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wneud cais i gael eu dileu'n wirfoddol o'r gofrestr. Bydd y Cofrestrydd ond yn cymeradwyo ceisiadau pan fydd y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn derbyn yr honiadau a'i bod er budd y cyhoedd iddynt gael eu dileu o'r gofrestr ar unwaith. Os na dderbyniwyd y cais, bydd yr achos naill ai'n symud ymlaen i wrandawiad neu gyfarfod i'w benderfynu gan banel.

Mae Tabl 9 yn dangos nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ac a gymeradwywyd yn y tair blynedd diwethaf. Nid yw'r ffigurau'n cydbwyso yn ystod y flwyddyn am nad yw pob cais yn cael ei benderfynu yn ystod yr un flwyddyn ag y byddant yn cael eu derbyn. Fel y cyfeiriwyd mewn **adroddiadau blynyddol Addasrwydd i Ymarfer** blaenorol, mae'r gostyngiad yn nifer y ceisiadau yn cyfateb â'r gostyngid yn nifer yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio i wrandawiad neu gyfarfod.

### Tabl 9: Ceisiadau dileu gwirfoddol

| Dileu gwirfoddol | 2019–20 | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau | 50 | 82 | 136 |
| Ceisiadau a gymeradwywyd | 31 | 60 | 66 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 20 | 41 | 70 |

Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o'r penderfyniadau dileu gwirfoddol eleni yn ôl y math o gofrestriad.

### Tabl 10: Penderfyniadau dileu gwirfoddol yn ôl y math o

| | 2019–20 | | 2018–19 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dileu gwirfoddol | Nurse | Midwife | Nurse | Midwife | Nurse | Midwife |
| Ceisiadau a gymeradwywyd | 30 | 1 | 52 | 8 | 52 | 14 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 19 | 1 | 38 | 3 | 60 | 10 |
| **Cyfanswm** | **49** | **2** | **90** | **11** | **112** | **24** |

# Adolygiadau ac apeliadau

Mae gennym y pŵer i adolygu penderfyniadau Archwilwyr Achosion, gan gynnwys cyngor, rhybuddion ac ymrwymiadau, a gall unrhyw un wneud cais i ni wneud hynny.

Cynhelir adolygiad o benderfyniad yn y broses hon mewn dau gam:

- Rydym yn penderfynu a ydym am gynnal adolygiad ai peidio.
- Os byddwn yn cynnal adolygiad, gallwn benderfynu cynnal y penderfyniad gwreiddiol neu benderfynu bod angen penderfyniad newydd.

Mae Tabl 11 yn dangos nifer y ceisiadau rydym wedi'u derbyn a'r penderfyniadau a gymerwyd gennym yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r ffigurau yn cydbwyso yn ystod y flwyddyn oherwydd bydd rhai penderfyniadau wedi'u gwneud yn y flwyddyn ar ôl derbyn y cais. Mae'r nifer o geisiadau a dderbyniwyd gennym yn cynrychioli llai na thri y cant o holl benderfyniadau'r Archwilydd Achosion.

Defnyddir yr hyn a ddysgir mewn adolygiadau i hysbysu hyfforddiant a gwelliannau gwella ansawdd eraill ar gyfer Archwilwyr Achosion ac ymchwilwyr.

## Tabl 11: Adolygiadau o benderfyniadau Archwilwyr Achosion

| Cam pŵer i adolygu 2019–20 | 2019–20 | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau am adolygiad a dderbyniwyd | 37 | 44 | 64 |
| Cam cyntaf: cau'r cais | 19 | 18 | 35 |
| Ail gam: mae angen penderfyniad ffres | 17 | 10 | 20 |
| Ail gam: cynnal y penderfyniad gwreiddiol | 2 | 4 | 17 |

O'r 17 achos pan benderfynodd y Cofrestrydd bod angen penderfyniad ffres yn 2019–2020, roedd 14 oherwydd bod diffyg perthnasol yn y penderfyniad gwreiddiol, roedd un oherwydd bod gwybodaeth newydd wedi dod i law a dau oherwydd bod diffyg perthnasol a bod gwybodaeth newydd ar gael.

Canlyniad y penderfyniadau yn yr achosion newydd hyn oedd:

- Anfonwyd 14 am wrandawiad neu gyfarfod
- Dirymwyd rhybudd 1 achos a chafodd ei gau gan yr Archwilwyr Achosion
- Roedd 2 achos yn aros am ystyried ffres gan yr Archwilwyr Achosion.

Gall nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio apelio yn erbyn penderfyniad ein paneli. Mae'n rhaid iddynt gyflwyno eu hapêl o fewn 28 diwrnod o'r penderfyniad i'r Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr, neu'r Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon, neu Lys y Sesiwn yn yr Alban. Gall yr Awdurdod Safonau Proffesiynol atgyfeirio achos hefyd i lys os bydd o'r farn nad yw penderfyniad y panel yn diogelu'r cyhoedd.

Mae Tabl 12 yn dangos cyfanswm yr apeliadau – ni fydd pob apêl a gyflwynwyd wedi dod i ben yn 2019–2020 ac mae canlyniadau'n cynnwys apeliadau a gyflwynwyd mewn cyfnodau adrodd blaenorol. Defnyddir y broses o ddysgu o apeliadau er mwyn hysbysu hyfforddiant ar gyfer aelodau'r panel a staff a gweithgareddau eraill i wella ansawdd.

### Tabl 12: Canlyniadau apeliadau o benderfyniadau'r panel

| Canlyniad | 2019–20 | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr apeliadau a gyflwynwyd | 23 | 28 | 32 |
| Apeliadau a gynhaliwyd | 13 | 18 | 12 |
| Apeliadau a wrthodwyd | 9 | 9 | 26 |

Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad yn apeliadau'r flwyddyn hon o benderfyniadau'r panel yn ôl y math o apeliadau.

### Tabl 13: Apêl o benderfyniadau'r panel yn ôl y math o

| | PSA | Cofrestrai |
|---|---|---|
| Apeliadau a gynhaliwyd | 7 | 6 |
| Apeliadau a wrthodwyd | 0 | 9 |

## Adfer i'r gofrestr

Gall nyrs neu fydwraig sydd wedi'u dileu oddi ar y gofrestr gan banel wneud cais i gael eu hadfer i'r gofrestr ar ôl pum mlynedd. Cyn y gallant ail-ymuno â'r gofrestr, mae'n rhaid iddynt fodloni panel eu bod yn addas i ymarfer. Os bydd eu cais yn llwyddiannus, bydd yn rhaid iddynt ddilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer fel arfer.

Mae Tabl 14 yn dangos canlyniadau'r ceisiadau adfer yn 2019-2020. Nid yw'r ffigurau'n cydbwyso yn ystod y flwyddyn am nad yw pob cais yn cael ei benderfynu yn ystod yr un flwyddyn ag y byddant yn cael eu derbyn Nid ydym wedi nodi unrhyw dueddiadau sy'n gysylltiedig â'r amrywiad yn nifer y ceisiadau adfer dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

### Tabl 14: Canlyniadau ceisiadau adfer

| Canlyniad | 2019–20 | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd | 62 | 47 | 52 |
| Ceisiadau a dderbyniwyd | 30 | 16 | 21 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 28 | 10 | 15 |

Mae Tabl 15 yn dangos dadansoddiad o benderfyniadau adfer eleni yn ôl y math o gofrestriad.

### Tabl 15: Penderfyniadau adfer yn ôl math o gofrestriad

| | Cyfanswm 2019-20 | Nyrs | Bydwraig |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau a dderbyniwyd | 30 | 30 | 0 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 28 | 28 | 0 |

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac addasrwydd i ymarfer

Mae **ystadegau** yr ydym wedi'u cyhoeddi wedi dangos gwahaniaethau mewn canlyniadau yn ôl ethnigrwydd a bod pobl o gefndiroedd DU, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu hatgyfeirio'n anghymesur i'n gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer gan gyflogwyr. Rydym yn awyddus i gynorthwyo cyflogwyr i ddelio â materion yn gyflym ac effeithiol ar lefel leol, gan roi ystyriaeth well i gyd-destun, gan gynnwys a yw cydweithwyr wedi profi cam-drin hiliol.

Rydym yn cynnal ein **hymchwil pellach** ein hunain ar sut mae gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, sydd â nodweddion gwarchodedig, yn profi prosesau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon i newid a gwella prosesau ac i ddylanwadu ar eraill ar lefel leol.

Mae gennym gyfrifoldebau fel rheoleiddiwr gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth – i adnabod a chydnabod bod problemau'n bodoli, cefnogi ein cofrestrwyr i ddilyn y Cod a defnyddio ein dylanwad pan fyddwn yn gallu ysgogi newid.

# Ffocws yn y dyfodol: 2020–2021

Ym mis Mawrth 2020, bu i ni gymryd camau brys i ail-flaenoriaethu ein gwaith oherwydd y pandemig Covid-19. Ein prif amcan oedd sicrhau ein bod yn cynnal ein rôl bwysig yn diogelu'r cyhoedd, ond roedd angen i ni gydbwyso'r baich rheoleiddiol ar weithwyr iechyd proffesiynol a chyflogwyr yn ystod y cyfnod heriol hwn. Fe wnaethom adolygu ein holl weithgarwch addasrwydd i ymarfer a nodwyd pedwar gwasanaeth allweddol a fyddai'n parhau i gael eu cynnal yn ystod y pandemig:

- asesu lefel y risg o ganlyniad i bryderon a gwybodaeth newydd
- gwneud cais am ac adolygu gorchmynion interim mewn achosion pan oedd pryder uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd, neu newid i risg
- adolygu gorchmynion cadarnhaol a fyddai'n dod i ben, er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd
- gwneud cais i'r uchel lys/llys y sesiwn i ymestyn unrhyw orchmynion interim a fyddai'n dod i ben, er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd.

Pan fydd risg wedi'i lleihau neu wedi derbyn sylw, rydym wedi ceisio dileu cyfyngiadau diangen, er mwyn galluogi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ymarfer.

Er ein bod yn gweithio ar gymaint o'n gwaith achos arall ag y gallwn, mae'n anochel y bydd y pandemig yn cael effaith arwyddocaol a hirdymor ar ein perfformiad gweithredol yn 2020-2021.

Gwyddom y bydd oedi yn ein hachosion yn cael effaith sylweddol ar y bobl sy'n destun ymchwiliad, y bobl sydd wedi codi pryderon gyda ni a'r rhai sy'n aros i roi tystiolaeth yn ein gwrandawiadau. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn derbyn dull gweithredu caredig ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gennym ni. Byddwn yn sicrhau bod llinellau ffôn cymorth emosiynol yn parhau i fod ar gael ar gyfer aelodau'r cyhoedd a nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.

Rydym wedi dechrau cynllunio sut y gallwn ail-ddechrau rhai o'n gweithgarwch yn ystod 2020–2021, gan gynnwys gweithredu ein dull gweithredu newydd ymhellach ar gyfer addasrwydd i ymarfer. Byddwn yn ymgorffori rhai o'r buddiannau sydd wedi dod i'r amlwg drwy ein newidiadau.

Rydym yn gobeithio ail-ddechrau gweithgarwch ar rai o'r gwaith arfaethedig ar gyfer 2020-2021, gan gynnwys:

- gwasanaeth eiriolaeth i helpu i gyflawni anghenion pobl a allai fod angen cymorth cyfathrebu ychwanegol fel addasiad rhesymol. Rydym yn cydweithio gyda rheoleiddwyr gofal iechyd eraill ar y gwaith hwn
- cymryd camau pellach i sicrhau y gall pob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ymgysylltu'n llawn ac effeithiol ym mhob cam o'n prosesau addasrwydd i ymarfer, p'un a oes ganddynt gynrychiolaeth gyfreithiol ai peidio
- gwella lefel y cymorth sydd ar gael i dystion a allai fod yn agored i niwed.

Nursing &
Midwifery
Council

CCS0620796088
ISBN 978-1-5286-2031-4